# Polisi Camddefnyddio Sylweddau

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas – cysylltiedig ag Erthyglau 6, 33, 36

# Polisi Camddefnyddio Sylweddau

**Cymhwyso'r Polisi**
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl diroedd ac adeiladau'r ysgol. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i unrhyw ymweliad ysgol.

**Rhesymeg**
Mae Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn ymroddedig i iechyd a diogelwch ei haelodau a bydd yn cymryd camau i ddiogelu eu lles. Nid yw yr ysgol yn derbyn camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau gan aelodau o'r ysgol, na chyflenwi'r sylweddau hyn yn anghyfreithiol. Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl fugeiliol wrth ofalu am les pobl ifanc, a bydd yn ceisio cefnogi pawb wrth ymdrin â sefyllfaoedd sy'n ymwneud â chyffuriau.

Mewn ymateb i'n pryderon a rennir yn lleol ac yn genedlaethol, rydym am ddatgan, fel rhan o'i gofal am les ei disgyblion, bod Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn credu bod dyletswydd arni i addysgu pobl ifanc am ganlyniadau defnyddio a chamddefnyddio cyffuriau. Mae gan yr ysgol agwedd gadarnhaol at y mater hwn, gan gredu bod addysg iechyd yn rhan hanfodol o gwricwlwm yr ysgol i'r holl ddisgyblion.

Yr hyn sy'n hanfodol i werthoedd ac arfer ein hysgol yw egwyddor rhannu'r cyfrifoldeb am addysg ein pobl ifanc gyda rhieni, gan eu hysbysu a'u cynnwys ar bob adeg. Mae cyfathrebu a chydweithredu effeithiol yn hanfodol i roi'r polisi hwn ar waith yn llwyddiannus. Er ein bod yn cydnabod bod nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio ac yn camddefnyddio sylweddau yn cynyddu, mae'n bwysig cydnabod bod nifer mwy o bobl ifanc yn dewis peidio â defnyddio neu gamddefnyddio sylweddau. Byddwn yn parhau i gefnogi eu hanghenion gwahanol.

**Yr amrywiaeth o sylweddau y mae'r polisi hwn yn eu cynnwys**
Mae'r sylweddau y cyfeirir atynt yn y polisi hwn yn cynnwys:

- Tybaco (gan gynnwys fêps)
- Alcohol
- Moddion dros y cownter
- Meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn unig, gan gynnwys steroidau anabolig a bensodiasepinau
- Sylweddau anweddol, gan gynnwys tanwydd aerosol, bwtan, hydoddyddion a gludion
- Sylweddau anghyfreithlon gan gynnwys heroin, cocên, ecstasi, amffetaminau, LSD, GHB a chanabis

**Gweithdrefnau ar gyfer rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau**

**Diffiniad o ddigwyddiad**
Mae'n amhosib darparu rhestr gynhwysfawr o ddigwyddiadau y gall y polisi hwn eu cynnwys, ond mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r math o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnwys:

- sbwriel sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau ar y safle neu o'i gwmpas e.e. cynhwysyddion fêps, caniau, chwistrellau;
- drwgdybiaeth a honiadau am weithgareddau unigolyn;
- datgeliad am gamddefnyddio sylweddau ar y safle neu mewn man arall pan fydd gan yr ysgol gyfrifoldeb e.e. gwibdaith ysgol;
- plant yn dangos yn glir arwyddion camddefnyddio sylweddau;
- plant, pobl ifanc neu oedolion â sylweddau yn eu meddiant pan fydd yr ysgol yn gyfrifol amdanynt;
- plant, pobl ifanc neu oedolion yn defnyddio sylweddau pan fydd yr ysgol yn gyfrifol amdanynt;
- plant, pobl ifanc neu oedolion yn gwerthu neu'n delio mewn sylweddau pan fydd yr ysgol yn gyfrifol amdanynt;

**Camau pellach a all ddilyn digwyddiad**
Ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud â disgyblion a sylwedd anghyfreithlon, bydd yr ysgol yn defnyddio Ffurflen Adrodd am Ddigwyddiadau sy'n Ymwneud â Chyffuriau.

Ar gyfer digwyddiadau eraill sy'n ymwneud â disgyblion, caiff gweithdrefnau arferol yr ysgol ar gyfer cofnodi digwyddiadau ymddygiad eu dilyn fel y'u disgrifir yn y Polisi Ymddygiad.

Gydag unrhyw gamau y mae'r ysgol yn eu cymryd yn dilyn digwyddiad, bydd lles y disgyblion o'r pwys pennaf. Trefnir cefnogaeth i'r disgyblion sy'n ymwneud â'r digwyddiad a'u rhieni/gofalwyr, drwy drafodaeth gydag asiantaethau priodol

Gall camau disgyblu yn erbyn disgyblion gynnwys gwaharddiad cyfnod penodol, ac, mewn amgylchiadau eithriadol, waharddiad parhaol. Bydd yr ysgol yn dilyn y canllawiau a osodir yn nogfen 'Camddefnyddio Sylweddau: Arweiniad i Ysgolion' yr AALl, ac yng Nghylchlythyr 17/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Yn dilyn digwyddiad, bydd yr ysgol hefyd yn adolygu'r addysg camddefnyddio sylweddau a ddarperir i ddisgyblion ac yn diwygio hyn yn ôl y galw.

**Addysg Camddefnyddio Sylweddau**
Mae'r ysgol yn ymrwymedig i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau trwy addysgu ei disgyblion am beryglon y materion hyn. Mae rhoi Amser Cylch a chwricwlwm Iechyd a Lles yr ysgol ar waith yn cyfrannu at ddatblygu'r sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd y mae eu hangen ar ddisgyblion wrth iddynt ddatblygu drwy holl gamau bywyd.
Mae Swyddog Cyswllt Ysgolion o Heddlu De Cymru hefyd yn cyfrannu drwy ymweliadau blynyddol gyda blwyddyn 4 a 6.

**CYFRINACHEDD**

Gall fod yn briodol i staff ddarparu cefnogaeth a chyngor un i un i ddisgyblion. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd staff yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol na allant gynnig cyfrinachedd llwyr. Bydd yr holl staff yn glynu wrth Bolisi Amddiffyn Plant yr ysgol.

| **Mabwysiadu'r Polisi** |
| --- |
| Dyddiad Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol: 27/6/23 |
| Dyddiad Ardystiwyd gan y Corff Llywodraethol: 27/6/23 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |